# SWYDD DDISGRIFIAD: Swyddog Cyfathrebu a Cyswllt Cymunedol

*ORIAU:* 32awr yr wythnos (ar amodau 4 diwrnod o waith yr wythnos)
*CYFLOG:* £30, 250 p.a.
*TERMAU'R GYFLOGAETH:* 24mis i gychwyn (gyda chyfnod prawf o 3mis, a'r posibiliad o ddatblygu'r swydd i fod yn un barhaol tu hwnt i'r 24 mis cyntaf).
*DYDDIAD CYCHWYN Y SWYDD:* Tachwedd 2023
*LLEOLIAD:* Caerfyrddin neu o gartref o fewn i Sir Gâr. Yn rhan o'r swydd mi fydd yn ofynnol i deithio o gwmpas trefi a phentrefi Sir Gâr ar adegau. Bydd oleuaf 1 diwrnod y mis yn cael ei glustnodi er mwyn gweithio ar y cyd gyda gweddill staff YSG o ganolfannau cymunedol amrywiol y sir. Mae yna hyblygrwydd bosib i gynnal gofod swyddfa yn unrhyw ran o Sir Gâr petai hyn ei hangen.
*YN GYFRIFOL AM:* Helpu'r Rheolwr a'r Cydlynydd i ddatblygu a chefnogi prosiectau ynni cymunedol ar draws Sir Gâr. Cydweithio â grwpiau amgylcheddol, cynaliadwy, natur a newid hinsawdd er mwyn cefnogi prosiectau i ddatgarboneiddio cymunedau'r sir. Bydd y rôl hefyd yn cynnwys cyfathrebu a hyrwyddo gwaith Ynni Sir Gâr yn y maes ynni, prosiect Bwrlwm a hyrwyddo ein gwaith yn gyffredinol.
*RHEOLWR LLINELL:* Cydlynydd Ynni Sir Gâr
*YN ADRODD POB DAU FIS I:* Bwrdd Ynni Sir Gâr

## CEFNDIR

Mae Ynni Sir Gâr yn Fenter Budd Cymunedol sy'n gweithio gyda chymunedau er mwyn lleihau costau ynni, hybu effeithlonrwydd ynni, taclo tlodi tanwydd, cynhyrchu ynni adnewyddadwy glân, gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan sy'n cael eu rheoli'n lleol ac sydd â pherchnogaeth leol, a chadw elw a swyddi yn lleol.

Mae Ynni Sir Gâr yn gweithio ar y cyd gyda chymunedau, mudiadau, sefydliadau a busnesau o fewn a thu hwnt y sir i drafod a thaclo materion a datrysiad lleol i newid hinsawdd, o'r gwaelod i fyny. Mae Ynni Sir Gâr yn anelu i arfogi cymunedau â sgiliau a gwybodaeth mewn ystod fawr o bynciau cynaliadwyedd er mwyn cymryd perchnogaeth o'r agenda newid hinsawdd. Ased mwyaf Ynni Sir Gâr yw ei thyrbin gwynt 500kW cymunedol yn Salem, Llandeilo. Cafwyd y tyrbin ei hariannu trwy gyfranddaliadau cymunedol, ac mae'r buddion sydd yn dod o'r tyrbin wedi cyfrannu tuag at fewnosod technoleg ynni gwyrdd, creu cronfeydd cymunedol a chyfrannu tuag at greu swyddi o fewn y fenter.

## SWYDD DDISGRIFIAD

Mae Ynni Sir Gâr yn edrych am unigolyn egnïol, hyblyg, creadigol a brwdfrydig sydd am gyfrannu syniadau cyffrous a helpu'r mudiad i gefnogi prosiectau cymunedol sydd yn mynd i'r afael â newid hinsawdd a datgarboneiddio yn lleol. Rydym yn chwilio am berson sydd â chwilfrydedd am weithio yn y maes ynni cymunedol er mwyn taclo newid hinsawdd, datgarboneiddio a chryfhau gwydnwch cymunedau'r sir. Byddwn yn cefnogi syniadau gwreiddiol cyflogai er mwyn iddynt gael y cyfle i weithredu'n greadigol yn y maes hwn.

Bydd dwy ran i waith y swyddog newydd. Ar yr un llaw bydd yr unigolyn yn arwain ar hyrwyddo a marchnata gweithgareddau Ynni Sir Gâr ac yn chwarae rhan adeiladol i godi proffil y fenter. Rydym yn edrych am berson sydd â phrofiad o weithio ym maes marchnata/ cyfathrebu, gyda'r sgiliau a phrofiad i feddwl yn greadigol ac yn gynnil am syniadau i hyrwyddo Ynni Sir Gâr i gynulleidfaoedd newydd. Bydd y swyddog yn gyfrifol am rannu newyddion a datblygiadau amryw o brosiectau'r fenter, ynghyd a rhannu gwybodaeth berthnasol am faterion ynni lleol a datgarboneiddio, a hynny yn ddwyieithog. Bydd sawl cyfrwng angen ei ddefnyddio, gan gynnwys ar-lein drwy ein gwefan, blog, cyfryngau cymdeithasol, fideos, podlediadau; a drwy'r cyfryngau traddodiadol megis papurau lleol, papurau bro a newyddlenni. Pwrpas y ffocws ar gyfathrebu yw codi ymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud a newid hinsawdd a sut i weithredu drostynt yn lleol yn Sir Gâr. Mae gweithredu'n bositif er budd yr hinsawdd, natur a bioamrywiaeth yn un o brif bwrpasau'r mudiad ynghyd â datblygu economi gylchol leol a phrosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol sydd yn buddio ac yn cynnal cymunedau Sir Gâr.

Ar wahân i'r gwaith cyfathrebu, ar adegau bydd hefyd angen i'r swyddog cyd-weithio gyda'r Cydlynydd a'r Rheolwr i gefnogi prosiectau penodol. Gall y rhain gynnwys helpu rhedeg cronfeydd ariannol, cefnogi cymunedau gyda gwybodaeth i ddatblygu prosiectau ynni, cydweithio a chydlynu digwyddiadau cymunedol a phrosiectau, a chefnogi'r broses o neud ceisiadau am ariannu a datblygu prosiectau penodol yn Sir Gâr. Hefyd, mi fydd y Swyddog yn cefnogi prosiect newydd Bwrlwm yn ardal Llanymddyfri - prosiect sydd yn anelu i greu prosiect/au ynni cymunedol yn y dref a'r ardal.

## PRIF DDYLETSWYDDAU

- Gweithio gyda Chydlynydd Ynni Sir Gâr i ddatblygu strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr.
- Datblygu brand amlwg a gweladwy ar gyfer Ynni Sir Gâr a'i prosiectau.
- Rhannu prif negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer cyrraedd cynulleidfaoedd newydd.
- Creu cynnwys ar-lein ac oddi ar-lein, gan gynnwys ysgrifennu erthyglau, datganiadau wasg, newyddlenni, fideos, rîls, graffeg a delweddau.
- Annog cyfraniad cymunedau gan ddefnyddio sawl modd o gyfathrebu i ddenu ymatebion. Hyn i gynnwys y traddodiad ymysg y sector gymunedol o sgyrsiau a thrafodaethau anffurfiol.
- Sefydlu a chynnal presenoldeb a dilyniant ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Datblygu a chynnal gwefan Ynni Sir Gâr.
- Sicrhau ymgysylltu gyda grwpiau ac unigolion nad sy'n gysylltiedig ag Ynni Sir Gâr ar hyn o bryd.
- Creu dealltwriaeth o'r weledigaeth o gefnogi cymunedau cynaliadwy carbon isel sy'n gweithredu ar newid hinsawdd yn y sir.
- Datblygu syniadau creadigol i sicrhau fod dealltwriaeth a gweithredoedd newid hinsawdd yn lledaenu drwy ein cymunedau.
- Cyfrannu'n adeiladol i ddiwylliant o rannu profiadau a dysgu.
- Gweithio gyda'n staff i adnabod cyfranwyr i ddigwyddiadau lleol a chyfrannu tuag at ddenu amrediad eang a chynrychioladol o'n cymunedau ar gyfer ein digwyddiadau a gweithgarwch.
- Creu a chymryd rhan mewn fideos, podlediadau a digwyddiadau cyfryngau lle bo'r galw.
- Cefnogi tîm Ynni Sir Gâr pan fo'r angen.
- Cydweithio â chwmnïau a'r awdurdod lleol ynglŷn â cyfarwyddid datgarboneiddio.

## ARALL

- Helpu â thasgau ar draws prosiectau gwahanol Ynni Sir Gâr (e.e. Bwrlwm Llanymddyfri, Clwb Ceir Dinefwr, ayyb) yn ôl y gofyn a/neu dan gyfarwyddyd Ynni Sir Gâr.
- Cysylltu â sefydliadau partner i adnabod cyfleoedd i gydweithio.
- Unrhyw waith arall i gefnogi'r fenter.

## SGILIAU

- Trefnus iawn ac yn hunan cymhellol.
- Tystiolaeth o sgiliau cyfathrebu da, datblygu a/neu hyrwyddo prosiectau, cydweithio â phobol o bob fath o gefndir ac ystod eang o fudiadau a mentrau.
- Mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol. Mae cefnogaeth i loywi iaith ar gael o fewn YSG, petai'r angen.
- Mae sgiliau ffotograffiaeth a fideograffiaeth yn ddymunol.
- Sgiliau ysgrifennu cryf, profiad o ddrafftio a chynnig datganiadau wasg ac ysgrifennu i gynulleidfaoedd gwahanol.
- Y gallu i ymdrin â thasgau mewn modd hyblyg, gyda'r gallu i reoli nifer o flaenoriaethau mewn amgylchfyd prysur.
- Sgiliau TG, gan gynnwys Microsoft, Google, Canva (neu offer cynllunio tebyg), Mailchimp a Wordpress.

## Y BROSES YMGEISIO

Rydym am glywed wrth bobol sydd yn rhannu gwerthoedd YSG ac sydd ag angerdd am weithio gyda chymunedau i daclo herion newid hinsawdd a chostau byw ar lefel leol. Rydym am berson sydd yn ymrwymedig i greu economi teg, lleol a chylchol ynghyd a cynorthwyo ni i ddatblygu mwy o brosiectau ynni adnewyddadwy er budd cymunedau Sir Gâr. Mae'r cyflogai delfrydol hefyd ag angerdd tuag at normaleiddio a chefnogi defnydd o'r Gymraeg. Mae Ynni Sir Gâr yn ymrwymedig i fewnblannu Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhopeth rydym yn ei wneud, a bydd y cyflogai arfaethedig yn cyfrannu tuag at sicrhau hyn fel rhan o'n holl waith.

Er mwyn neud cais, anfonwch eich CV ac un dudalen o lythyr eglurhaol i esbonio pam eich bod yn neud cais am y rôl hon, y sgiliau rydych yn gallu ei gyfrannu i'r fenter ac enghreifftiau o unrhyw esiamplau o gynnwys rydych chi wedi ei greu o'r blaen. Os bod unrhyw gwestiynau pellach gennych chi ynglŷn â'r swydd neu am y broses ymgeisio, peidiwch ag oedi i gysylltu (manylion cyswllt isod).

Anfonwch eich cais at Gydlynydd Ynni Sir Gâr, Sioned Haf: sioned@ynnisirgar.org / 07529901523

Y dyddiad cau am geisiadau yw: **5yh, Dydd Gwener, 6ed o Hydref**

Cyfweliadau: **13eg o Hydref**

*Rydym yn cadw'r hawl i gau'r swydd wag yn gynnar os ein bod yn derbyn ceisiadau digonol am y rôl. Felly, os eich bod â diddordeb, anfonwch eich cais cyn gynted â fo phosib.*

Mae Ynni Sir Gâr yn cydnabod buddion positif amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu. Rydym yn croesawi ac yn annog ceisiadau swydd gan bobol o bob cefndir.

Mae YSG yn gyflogwr Tâl Byw ac yn cefnogi gweithio'n hyblyg ac wythnos gweithio ar delerau 4 diwrnod. Bydd rhannu swydd hefyd yn cael ei hystyried go gyfer y rôl.